# PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion Cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd yn y Gadair); Cynghorwyr J. Aviet, S.J. Haines, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, S. Lloyd-Selby a M.J.G. Morgan.

Hefyd yn bresennol: V. John (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid), Cynghorwyr A. Asbrey, C.P. Franks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), a S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid).

110 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

111 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr A.M. Collins (Cadeirydd), G.M. Ball a H.M. Payne; G. Doyle a D. Dutch (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid) a C. Ireland (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a Bro Morgannwg).

112 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai, 2024 fel cofnod cywir.

113 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

114 DATBLYGU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2025-2030, ASESIAD PERFFORMIAD PANEL A CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2024 gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, a'i ddiben oedd amlinellu, er mwyn i'r Pwyllgor ystyried a rhoi sylwadau arnynt, y Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2025-2030, y trefniadau a'r cwmpas arfaethedig ar gyfer yr Asesiad Perfformiad Panel, a chyflwyno Calendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg ar gyfer 2024/25. Amlinellodd yr adroddiad hefyd y canfyddiadau allweddol a'r dysgu o ddull Hunanasesiad Blynyddol y flwyddyn flaenorol a gwnaeth gynigion i wella'r broses ymhellach yn barod ar gyfer hunanasesiad 2023/24.

Rhannwyd yr adroddiad yn nifer o themâu allweddol, a oedd yn cynnwys:

- Datblygu Cynllun Corfforaethol 2025-30.
- Asesiad Perfformiad Panel (APP).
- Cynigion ar gyfer Hunanasesiad Blynyddol 2023/24.
- Ymgysylltu ag Aelodau Etholedig.
- Y Calendr Perfformiad Blynyddol.

Yn dilyn cyflwyno pob un o'r themâu hyn, rhoddwyd nifer o sylwadau, ymholiadau ac argymhellion gan y Pwyllgor.

Gofynnodd y Cynghorydd Lloyd-Selby, o ran y Cynllun Corfforaethol, a oedd datblygiad y Cynllun yn cynnwys ymgysylltu â'r amcanion lles drafft a dywedodd y byddai hefyd yn ddefnyddiol deall pwy oedd yn ymwneud â'r rheiny. Mewn ymateb, esboniodd y Cyfarwyddwr fod y rhain yn cael eu datblygu'n fewnol, yn ogystal â chael eu llywio gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Y cynnig oedd sefydlu strwythur ar gyfer y cynllun ac yna ymgysylltu'n llawn ag Aelodau Etholedig a dosbarthu’r ddogfen ar gyfer ymgynghoriad llawn yn nes ymlaen yn y broses. Un peth a oedd yn glir am yr holl broses a’r amserlen oedd bod y Cyngor eisiau cymaint o fewnbwn â phosibl, yn enwedig gan Aelodau Etholedig, i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ond hefyd, yr un mor bwysig, i gael adborth gan aelodau'r cyhoedd. I ddechrau, y nod oedd rhoi strwythur at ei gilydd, er mwyn rhoi rhywbeth i bobl wneud sylwadau arno, gyda'r bwriad o gael cymaint o sylwadau a manylion â phosibl dros gyfnod yr amser a gymerodd i roi'r Cynllun yn ei gam olaf.

Mewn perthynas ag ymgysylltu, yr arolwg trigolion Gadewch i Ni Siarad a'r data / canlyniadau ohono, gofynnodd yr Is-gadeirydd, gan weithredu fel y Cadeirydd, a fyddai'r Cyngor yn ystyried y gwersi a ddysgwyd ohono, yn enwedig o ran proffilio unigolion ohono o ran pobl iau a phobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn iawn trwy ddull sy’n 'pontio'r cenedlaethau' yn fwy. Mewn ymateb, esboniodd y Cyfarwyddwr y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i ymgysylltu’n fwy â thrigolion pob cenhedlaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cael mewnbwn llawn a phriodol i'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun fel rhan o'r ymgynghoriad. Byddai tystiolaeth glir o hyn er mwyn mynd i'r afael â phryderon y cyhoedd nad oedd digon o wrando ar eu barn ac a oedd wedi cael eu hadlewyrchu yn yr arolwg trigolion diweddar. Roedd hyn wedi’i nodi wedyn gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r Cyngor ehangach fel maes allweddol

y dylid mynd i'r afael ag ef yn weithredol wrth symud ymlaen fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol.

Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd, gan weithredu fel y Cadeirydd, hefyd at ddefnyddio fformatau iaith hawdd eu darllen a phlaen ar gyfer y Cynllun Corfforaethol a dogfennau cysylltiedig, ac i sicrhau bod mecanwaith ar waith fel bod y derminoleg a ddefnyddir ar gyfer dogfennau o'r fath yn briodol i aelodau'r cyhoedd ddeall a gwerthfawrogi'n llawn beth oedd pwrpas y Cynllun Corfforaethol. Mewn ymateb, esboniodd y Cyfarwyddwr fod yr Uwch Dîm Rheoli wedi cyfarfod â swyddogion Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol ychydig fisoedd yn ôl er mwyn profi a chadarnhau'r amcanion a'r syniadau a oedd yn rhan o'r Cynllun (h.y. i sicrhau eu bod yn ddealladwy i drigolion) a bod gan y Cyngor hefyd bolisïau siarad a gwybodaeth glir i ddosbarthu gwybodaeth i drigolion mewn fformat hawdd ei ddarllen. Roedd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod pob amcan yn hawdd ei ddeall, y gellid ei fesur a'i dystio'n briodol fel rhan o'r Cynllun ac fel dogfen gyhoeddus a fyddai'n hawdd ei chyrchu ac y gallai trigolion ei darllen a'i deall yn hawdd.

Tynnodd y Cynghorydd Hennessy sylw at y ffaith efallai na fydd gan lawer o drigolion hŷn fynediad at liniaduron a dyfeisiau tebyg ac felly na allent ymgysylltu na chyrchu'r dogfennau perthnasol sy’n ymwneud â’r Cynllun, ac ati yn ddigidol a gofynnodd a allai trigolion dderbyn copïau caled o'r ddogfennaeth hon pe bai angen. Dywedodd y Cyfarwyddwr y gellid rhoi copïau caled, ac yn yr un modd gellid rhannu copïau dwyieithog o'r ddogfennaeth hefyd â thrigolion drwy Ganolfan Gyswllt Cyngor Bro Morgannwg.

Gwnaeth y Cynghorydd Lloyd-Selby sylw ar y canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd ar baratoi'r cwmpas ar gyfer yr Asesiad Perfformiad Panel, a chanmolodd benderfyniad y Cyngor i ymgysylltu â'r craffu allanol hwnnw a fyddai'n fuddiol dros ben drwy gynnig persbectif allanol a gwahanol ar gynlluniau ac amcanion y Cyngor ar y cyd ag adborth gan drigolion. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod swyddogion y Cyngor yn mynd trwy broses ddethol er mwyn bod yn rhan o'r adolygiadau hyn, yn debyg i gais am swydd a oedd yn sicrhau bod y swyddogion mwyaf addas yn cael eu dewis ac y gallai eu sgiliau a'u profiad lywio'r broses hon orau. Byddai'r Panel yn cynnwys uwch swyddogion, cyfarwyddwyr a phrif weithredwyr o amrywiaeth o Awdurdodau Lleol Cymru a byddai'n helpu i ddarparu fframwaith neu broses ddysgu a datblygu er mwyn i'r Cyngor sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol yn cyd-fynd ag anghenion trigolion a sicrhau'r canlyniadau gorau ar eu cyfer yn fwy effeithiol. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai'r ymateb hwn yn helpu i dawelu meddyliau Aelodau Etholedig a thrigolion Bro Morgannwg bod y broses ddethol i swyddogion y Cyngor eistedd ar y Panel yn ddigon cadarn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Lloyd-Selby at yr amserlen perfformiad a’r ffaith bod y Cyngor yn cynllunio'r ymgysylltu ar ganfyddiadau’r hunanasesiad gyda staff, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill ym mis Awst. Roedd yn pryderu y byddai mis Awst yn gyfnod pan fyddai llawer o staff â chyfrifoldebau gofal plant yn cymryd absenoldeb ac roedd aelodau'r cyhoedd yn aml i ffwrdd neu'n brysur gyda gofal plant a chyfrifoldebau eraill. Gofynnodd pa fesurau a fyddai'n cael eu cymryd gan y Cyngor i sicrhau bod yr ymgysylltu’n effeithiol ac yn ystyrlon o ystyried risg y mis penodol hwnnw. Esboniodd y Cyfarwyddwr, oherwydd y gwaith a gynhwyswyd yn y calendr perfformiad, fod yn rhaid cynnwys mis Gorffennaf a mis Awst, misoedd

'gwyliau' yn draddodiadol. Pwysleisiwyd y byddai mis Awst cyfan yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr ymgysylltu fodd bynnag, a fyddai'n sicrhau y byddai'r broses ymgysylltu'n codi pobl a allai fod yn cymryd egwyl o bythefnos o fewn y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, byddai sylwadau'r Cynghorydd yn cael eu hystyried a byddai ymdrechion yn cael eu gwneud i weld a ellid ymestyn y cyfnod ymgysylltu ymhellach. Gofynnodd y Cynghorydd a allai'r Cyngor fonitro'r broses ymgysylltu'n rhagweithiol i sicrhau ei bod yn effeithiol, yn ystyrlon a bod lefelau cyfranogiad yn ddigon uchel. Byddai cynyddu hyd y cyfnod ymgysylltu yn helpu gyda hyn. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor yn ceisio ymgysylltu â thrigolion, ac ati'n well ac y byddai'n ceisio ymestyn y cyfnod ymgynghori lle bynnag y bo modd.

Gofynnodd yr Is-gadeirydd, gan weithredu fel y Cadeirydd, am esboniad manylach ar beth oedd y broses ymgysylltu hon, ac a fyddai gan y Cyngor arwydd a'r data perthnasol ar y gyfradd ymateb i'r ymgysylltu yng nghanol mis Awst er mwyn penderfynu a oedd angen i'r Cyngor ystyried ymestyn yr amserlen ar gyfer ymgynghori, h.y. a oedd y gyfradd ymgysylltu'n isel. Mewn ymateb, cytunodd y Cyfarwyddwr fod angen monitro lefelau ymgysylltu ac y byddai'n ddefnyddiol i'r Aelodau gael mwy o fanylion am y broses ymgynghori a'r cynllun ymgysylltu ar gyfer yr Hunanasesiad Blynyddol. Er y byddai rhan sylweddol o'r broses hon yn cael ei gwneud yn ddigidol, byddai dulliau ymgysylltu nad ydynt yn ddigidol hefyd yn cael eu defnyddio i sicrhau'r ymgysylltu mwyaf â thrigolion ac eraill.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad wedi'i atodi,

ARGYMHELLWYD –

(1) GOFYN i Swyddfa'r Prif Weithredwr ddarparu rhagor o fanylion am y broses ymgynghori a'r cynllun ymgysylltu ar gyfer yr Hunanasesiad Blynyddol i'r Pwyllgor hwn ac y dylid ymrwymo i sicrhau bod y grwpiau hynny na allant ymgysylltu'n ddigidol â'r broses hon. ymgynghori drwy ddulliau eraill, megis darparu copïau caled o'r ddogfennaeth berthnasol.

(2) BOD y Cabinet yn ystyried awgrym y Pwyllgor y dylid monitro'r gyfradd ymateb fel rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer Hunanasesiad Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg. Pe bai'n dod i'r amlwg hanner ffordd yn y broses hon bod y cyfraddau ymateb i'r ymgynghoriad yn gymharol isel, dylid ystyried ymestyn y cyfnod ymgynghori os oes angen ac y dylid rhannu hyn hefyd gyda Swyddogion y Cyngor sydd â'r pwerau dirprwyedig perthnasol er mwyn gweithredu'r estyniad hwn.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Sicrhau bod yr holl drigolion, rhanddeiliaid, ac ati yn cael eu cynnwys yn briodol ac yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r broses ymgynghori.

(2) Sicrhau bod y Cabinet yn cael y cyfle i ystyried argymhelliad y Pwyllgor fel rhan o'i ystyriaeth o'r adroddiad a sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y broses hon yn ogystal â sicrhau bod yr ymgynghoriad yn ddigon cadarn ac effeithiol.